# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Pennaeth / Headteacher**
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

**Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,**
**Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX**

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk


Ebrill, 2014

Annwyl Rhiant/Warchodwr

**Gwisg Ysgol yr Haf**

Fel y gwyddoch bydd disgyblion yn cael gwisgo gwisg ysgol yr haf ar ôl gwyliau'r Pasg.

Dyma'r cyfle felly i ail-gyflwyno'r canllawiau yw cefnogi'n disgyblion a'u rhieni ac osgoi unrhyw wrthdaro dianghenraid allai godi yn sgil gwisg ysgol anaddas.

| **Gwisg Haf – Bechgyn** | **Gwisg Haf – Merched** |
|---|---|
| Cardigan du, **gwddf V** gyda bathodyn yr ysgol | Cardigan du, **gwddf V** gyda bathodyn yr ysgol |
| Siwmper ddu, **gwddf V** gyda bathodyn yr ysgol | Siwmper ddu, **gwddf V** gyda bathodyn yr ysgol |
| Crys gwyn (llewys hir neu fyr) â thei ysgol **neu** grys polo gwyn â bathodyn yr ysgol | Crys gwyn **sy'n cau at y coler** (llewys hir neu fyr) â thei ysgol **neu** grys polo gwyn â bathodyn yr ysgol |
| Trowsus du plaen, ffurfiol | Trowsus du plaen, hir, ffurfiol neu sgert ddu ffurfiol at y pen-glin |
| Esgidiau du plaen (**dim logos**). Ni chaniateir "boots". Dim 'fflip-fflops' am resymau iechyd a diogelwch | Esgidiau synhwyrol du **plaen**. Ni chaniateir "boots" nac esgidiau sodlau uchel. Dim 'fflip-fflops' am resymau iechyd a diogelwch |
| Sanau du | Sanau du hir |
| **Dillad tu allan – Bechgyn** | **Dillad tu allan – Merched** |
| Cot ddu blaen (nid yw cotiau lledr yn addas i'r ysgol) | Cot ddu blaen (nid yw cotiau lledr yn addas i'r ysgol) |
| 'Fleece' du gyda bathodyn yr ysgol | 'Fleece du gyda bathodyn yr ysgol |

Caniateir i ddisgyblion wisgo hwdi chwaraeon swyddogol yr ysgol neu hwdi Mentoriaid Cyfoedion **y tu allan i adeilad yr ysgol** amser egwyl ac amser cinio yn unig. **Ni chaniateir unrhyw hwdis eraill.**

Ar wahân i wersi Addysg Gorfforol a Drama, **ni chaniateir gwisgo 'trainers'** ond ar gyfer chwarae gemau anffurfiol amser cinio.

Mae'r wisg ysgol yn symbol gweladwy o barch at gymuned yr ysgol yr ydym yn perthyn iddi ac felly disgwyliwn i'n ddisgyblion ddilyn y canllawiau uchod.

A gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi rieni am eich cefnogaeth gyda'r mater hwn. Dymunwn Pasg llawen i chi.

Yn gywir

Mrs A Williams
Pennaeth